

3-SET

The Third Sector  
European Team

Tîm Ewropeaidd  
y Trydydd Sector

# Cronfeydd Trawswladol

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Erasmus+
3. Iwerddon Cymru
4. Interreg Ewrop
5. Cyflogaeth ac Arloesi Cymdeithasol (EaSI)
6. Hawaliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth
7. LIFE
8. Gwybodaeth bellach

## Cyflwyniad

Yn ogystal â'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIFs), mae gan Gymru fynediad hefyd at nifer o raglenni cyllido Ewropeaidd eraill.

Fel arfer, mae'r rhain yn gofyn i fudiad weithio mewn partneriaeth ag eraill o wahanol wledydd.

Yn wahanol i'r ESIFs, caiff y mwyafrif o'r rhain eu gweinyddu

gan ysgrifenyddiaethau, nid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sy'n gweinyddu'r cyllid ar ran y Comisiwn.

Wedi'u rhestru isod mae rhai o'r rhaglenni cyllido trawswladol sydd o ddiddordeb arbennig i'r trydydd sector yng Nghymru.



Llun: Grŵp o fyfyrwyr yn siarad â'i gilydd

## Erasmus+

### Beth yw Erasmus?

Erasmus+ yw'r rhaglen Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuentid a chwaraeon.

### Beth mae'n ei gyllido?

Profiadau cyfnewid, lleoliadau gwaith a phrosiectau arloesol i wella arferion a dylanwadu ar bolisiau.

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw a mentrau bach a chanolig (SMEs)).



### **ASTUDIAETH ACHOS PROSIECT ERASMUS+: CLYBIAU BECHGYN A MERCHED CYMRU**

Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru wedi bod yn ymgymryd â gwaith ieuentid ers 85 o flynyddoedd. Maen nhw'n rhedeg prosiect dan raglen Erasmus+ o'r enw 'Not the Usual Suspects', sy'n canolbwyntio ar gynnwys ieuentid sydd wedi'u tangynrychioli mewn fforymau traddodiadol gyda gwleidyddion ar wahanol lefelau penderfynu (fel Cyngorwyr lleol, Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol ac ati).

Gwnaethant gynnal digwyddiad o'r enw 'Not the Usual Hustings' yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys grŵp o bobl ifanc rhwng 16-18 oed. Gwnaethant gwrdd â gwleidyddion a'u cyfweld a thrafod pynciau o ddiddordeb, codi materion perthnasol ac egluro eu safbwyntiau a'u syniadau eu hunain. Drwy gynllunio, gweithredu a chynnal y digwyddiad hwn, datblygodd y grŵp sgiliau TGCh, sgiliau golygu fideo, sgiliau cyfweld, sgiliau adeiladu tîm a sgiliau datrys problemau.

Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar y grŵp o 30 o bobl ifanc, drwy gynlluniau lledaenu sy'n cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llunio maniffesto pobl ifanc, rhagwelir y bydd dros 3000 o bobl ifanc yn cael budd anuniongyrchol o'r prosiect hwn, gan ystyried rhwydwaith eang y mudiad.

## Iwerddon Cymru

### Beth yw Iwerddon Cymru?

Nod rhaglen Iwerddon Cymru yw:

- Cefnogi cydweithio rhwng mudiadau ymchwil ac SMEs
- Cynyddu capasiti a gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd
- Cefnogi cynaliadwyedd asedau naturiol a diwylliannol

Rhaid i bob prosiect fynd i'r afael â heriau sy'n gyffredin ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw ac SMEs).

## Interreg Ewrop

### Beth yw Interreg Ewrop?

Nod rhaglen Interreg Ewrop yw:

- Helpu SMEs i ddatblygu a thyfu
- Cefnogi gwaith ymchwil ac arloesedd, yn enwedig ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg
- Creu economi carbon isel, er enghraifft, drwy wella effeithlonrwydd ynni
- Gwarchod yr amgylchedd a gwella effeithlonrwydd adnoddau

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw ac SMEs).

## Cyflogaeth ac Arloesi Cymdeithasol (EaSI)

### Beth yw EaSI?

Nod rhaglen EaSI yw:

- Cefnogi'r gwaith o hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o safon
- Cefnogi diogelwch cymdeithasol digonol a phriodol
- Trechu allgau cymdeithasol a thlodi a gwella amodau gwaith

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw ac SMEs).

## Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth

### Beth yw Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth?

Nod y rhaglen yw:

- Hyrwyddo amgylchedd nad yw'n gwahaniaethu
- Trechu hiliaeth, senoffobia, homoffobia a mathau eraill o anoddefgarwch
- Hyrwyddo hawliau pobl anabl
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod
- Atal trais yn erbyn plant a grwpiau eraill sy'n agored i niwed

### Beth mae'n ei gyllido?

Gweithgareddau hyfforddi, er enghraifft, profiadau cyfnewid staff, cyfnewid arferion da, gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth.

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw ac SMEs).

## LIFE

### Beth yw LIFE?

Mae rhaglen LIFE yn cefnogi effeithlonrwydd adnoddau, byd natur, bioamrywiaeth a mesurau i leddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddynt.

### Pwy all ymgeisio?

Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (fel mentrau cymdeithasol, mudiadau nid-er-elw ac SMEs).

## Gwybodaeth bellach

Mae'r rhaglenni a ddisgrifir yma'n ddim ond canran fechan o'r holl ffrydiau cyllido trawswladol sydd ar gael i fudiadau yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth am beth arall sydd ar gael, ewch i wefan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hon yn rhoi manylion cylchau cyllido, gwybodaeth gefndirol am bob rhaglen a sut i ymgeisio.

### **Cyllid a Thendrau Comisiwn Ewropeaidd**

[https://ec.europa.eu/info/funding-tenders\\_en](https://ec.europa.eu/info/funding-tenders_en)



Cefnogi Trydydd  
Sector **Cymru**

Third Sector  
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddosoddi Ewropeaidd**  
**European Structural  
and Investment Funds**